SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

The Rt Hon Suella Braverman MP
Home Secretary
Home Office
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

Ein Cyf / Our Ref: AD/HW/2333

10 Tachwedd/October 2023

Annwyl Ysgrifennydd Cartref,

**Arolwg Gwrthderfysgaeth ar y Cyd – Trefniadau isadran diogelwch cenedlaethol ac asiantaethau gwahanol ar gyfer rheoli terfysgwyr yn sgil ymosodiadau terfysgol.**

Yn unol â'r statud, ysgrifennaf atoch gyda fy sylwadau ar Arolwg ar y Cyd Arolygaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS), Arolygaeth Gwasanaeth Prawf EF ac Arolygaeth Carchardai EF ar Wrthderfysgaeth.

Canolbwyntiodd yr Arolygaeth ar drefniadau rheoli terfysgwyr yn sgil ymosodiadau terfysgol yn 2019 a 2020, hefo adolygiad a gynhaliwyd ledled Cymru a Lloegr. Arolwg Gwrthderfysgaeth ar y Cyd – Trefniadau isadran diogelwch cenedlaethol ac asiantaethau gwahanol ar gyfer rheoli terfysgwyr yn sgil ymosodiadau terfysgol. Mae lleoliad daearyddol Gogledd Cymru yn unigryw o'i gymharu â heddluoedd eraill gan ein bod o fewn Plismona Gwrthderfysgaeth Cymru, ond o fewn Uned Troseddau Trefnedig Rhanbarthol y Gogledd Orllewin.

Ar y cyfan, mae'r adroddiad wedi nodi gwelliant eang o ran rheoli terfysgwyr yn dilyn gweithredu mesurau ar draws carchardai, yr Isadran Diogelwch Cenedlaethol a Rheoli Cysylltiadau

Dear Home Secretary

**Counter Terrorism Joint Inspection – National security division and multi-agency arrangements for the management of terrorist offenders in the wake of terrorist attacks.**

As required by statue, I am writing to you with my comments on His Majesty's (HM) Inspectorate of Constabulary, Fire and Rescue Service (HMICFRS), HM Inspectorate of Probation and HM Inspectorate of Prisons' Counter Terrorism Joint Inspection.

The Inspectorate focused on the arrangements for the management of terrorist offenders in the wake of terrorist attacks in 2019 and 2020, with reviews conducted across England and Wales. The geographical location of North Wales is unique compared to other forces as we sit within Counter Terrorism Policing Wales, but within the North West Regional Organised Crime Unit (NWROCU).

Overall, the report has identified a vast improvement in the management of terrorist offenders following the implementation of measures across prisons, the National Security

Glan y Don, Bae Colwyn LL29 8AW
Ffôn / Tel: 01492 805486
Ebost / Email: OPCC@nthwales.pnn.police.uk
Glan y Don, Colwyn Bay LL29 8AW
Ffacs / Fax: 01492 805489

Gwrthderfysgol. Mae'r adroddiad wedi amlygu arfer da mewn arweinyddiaeth gref, gweithio mewn partneriaeth a rheoli achosion ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol. Disgrifiwyd y lefel goruchwylio o fewn y gymuned fel cadarn gan ei bod yn pwyso a mesur anghenion adsefydlu hefo ffiniau rheoli risgiau tynn.

Division and the Counter Terrorism Nominal Management. The report has highlighted good practice in the strong leadership, partnership working and management of cases on a local, regional and national level. The level of supervision within the community was described as robust as it balances rehabilitative needs with tight risk management parameters.

Roedd meysydd i'w gwella a oedd yn cynnwys yr angen i ddiweddaru'r fframwaith gweithredol presennol o fewn carchardai a'r gwasanaeth prawf. Mae hyn wedi arwain at rywfaint o anghysondeb o ran sut y rheolir troseddwyr ledled y wlad. Rwyf yn edrych ymlaen at weld y fframwaith newydd unwaith mae wedi cael ei roi ar waith.

There were areas of improvement identified which included the need to update the current operational framework within the prison and probation service. This has resulted in some inconsistency in the way that offenders are managed across the country. I look forward to seeing the new framework once it has been implemented.

Mae'n gadarnhaol fod yr adroddiad hwn wedi nodi gwelliant sylweddol o ran rheoli'r garfan hon o droseddwyr yn dilyn yr ymosodiadau trasig yn 2019 a 2020. Bydd yn rhoi sicrwydd cyffredinol fod mesurau cadarn wedi cael eu rhoi mewn lle er mwyn atal digwyddiadau yn y dyfodol.

It is positive that this report has identified a significant improvement in the management of this cohort of offenders following the tragic attacks in 2019 and 2020. It will provide an overall reassurance that robust measures have been put in place to prevent future incidents.

Yn gywir

Yours sincerely

Andy Dunbobbin
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru /North Wales Police and Crime Commissioner